"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1890. [RHIF 26.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Beth yw bod yn Gristion?	25
Nodiadau ar Lyfr yr Actau	28
Ffyddlondeb	30
Y Wir Uffern	31
Tu faes i'r caerau	32
Y Cyfarfodydd Chwarterol	35
Anerchiad Priodasol	37
Nodynau Gwasgarog	38
Y Parchedigion Hopps a Voysey	42
Trefn Eglwysig	44
Manion a Hanesion	45
Marwgofion	47

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—T.J., Alltyplaca; J.E., New Castle Emlyn; H.J., Glyn Neath; Mrs. P. Llanfynydd; T.H., Llwyn; D.W.D., Gellionen; E.J., Aberdare; T.Ll., Porthcawl; Rev. T.Ll.J., Liverpool; D.E., Troedyrhiw; J.L., Dowlais; Miss W., London; G.J.D., Lampeter; W. Lewis, Pontypridd; T.D., Dolbwba; Rev. W.J., Llandyssul; T.D., Merthyr.

GWELLIANT GWALL.—Yn nhudalen 4 o rifyn Ionawr, tua diwedd yr ail *baragraph*, yn lle "amgylchiadau uwch am Dduw" darllener "amgyffrediadau uwch am Dduw."

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1890. [RHIF 26.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

BETH YW BOD YN GRISTION?

DANFONWYD cylchlythyr yn ddiweddar gan berchenog newyddiadur yn Boston i nifer pennodol o ddynion a menywod cynddrychedigol, yn gofyn iddynt, "A fyddwch chwi mor garedig â rhoddi i mi, er ei gyhoeddi yn y newyddiadur hwn, ateb byr, ond cyfaddas, i'r gofyniad, 'Beth yw bod yn Gristion?' Gwnawn y cais hwn fel y gallom sicrhau y gosodiad mwyaf syml ac eglur possibl mewn atebiad i'r gofyniad pwysig, a chyda'r unig gymhelliad a bwriad o'i fod yn gynnorthwyol i ereill ei ateb yn foddhaol."

Yn awr, dyfynwn rhai o'r atebion gafwyd, ac efallai y bydd rhai o honynt yn foddhaol ac yn gynnorthwyol i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD roddi ateb i'r gofyniad *pwysig* yn ein golwg ni.

"Bod yn Gristion, yn ol geiriadaeth y Testament Newydd, yw bod yn ganlynwr i Grist—nid meddwl rhywbeth yn ei gylch Ef neu ei berson, ond ei werthfawrogi, ei ganlyn Ef, bod yn debyg iddo Ef, ymddiried yn y cynnorthwy sydd yn dyfod drwyddo er cyflawnu y gwaith a rydd Efe i'w ganlynwyr i'w wneyd."—*Layman Abbot, D.D.*

"Cristion yw Efe, prif amcan yr hwn yw ymdrech lwyddiannus i fod yn debycach i Grist."—*A. P. Peabody, D.D., Ll.D.*

"Cristion yw un sydd wedi ennill rhyddhad oddiwrth y cariad at enogrwydd pechod drwy adenedigaeth a'r Iawn; un a fedd y ffydd sydd yn gwneyd dyn yn ffyddlon; un sydd yn caru yr hyn mae Duw yn ei garu, ac yn casbau yr hyn y mae Duw yn ei gasbau; un sydd wedi derbyn yn ewyllysgar, serchog, ac mewn modd diwrthdro, Dduw yn Nghrist fel Iachawdwr ac Arglwydd; un sydd yn gweled Duw fel Creawdwr a Iachawdwr mor fyw a dealladwy ag i fod yn foddlon ei dderbyn fel Llywodraethwr hefyd; un sydd yn gweled Croes Crist, ac nad yw yn groes i ddwyn y groes."—*Joseph Cook.*

"Atebodd Iesu Grist y gofyniad hwn pan ddywedodd fod yn rhaid i bwy bynag a ddymunai fod yn ddysgybl iddo Ef ymwadu ag ef ei hun a'i ganlyn Ef. Gan hyny, y dyn sydd yn gadael ei bechod, a thrwy gymhorth yr Yspryd Sanctaidd, yn ymdrechu cadw gorchymynion ei Iachawdwr Iawnol a'i Arglwydd, yw y Cristion. Mae ffydd enaid y pechadur gyda Iachawdwr pechadur."—*Y Parch. Theo. L. Cuyler, D.D.*

"Atebaf—Credu yr hyn a ddywed Iesu Grist, a gwneyd yr hyn a archa Iesu Grist i ni ei wneyd."—*Margaret Bottome.*

"Tybiaf mai yr atebiad a ofyna eich gofyniad yw yr un a roddodd yr Iachawdwr. Dywedodd Ef pan oedd galwad arno, 'Pwy bynag sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad yr Hwn sydd yn y nefoedd, Efe yw fy mrawd, a'm chwaer, a'm mam.' Mae yr atebiad hwn mor dda yn awr ag oedd y pryd hwnw."—*Y Parch. Edward Everett Hale, D.D.*

"Daw dyn yn Gristion pan y derbynia y gwirionedd ddysgodd Crist, y cydweithreda â'r gwirionedd dderbynir, y rhydd ei holl fywyd i'r 'gwirionedd fel y mae yn yr Iesu,' ac yr adgynnyrcha y bywyd hwnw i fyny i fesur ei allu—'peth ar ei ddeg-ar-hugain, arall ar ei dri-ugeinfed, ac arall ar ei ganfed.' Amrywia y gallu i adgynnyrchu, ond ymddybyna bywyd tragwyddol ar dderbyn Crist ac adgynnyrchu Crist."—*O. P. Gifford, D.D.* (Bedyddiwr).

"Bod yn Gristion, yn ddynol, ydyw ymgnawdoli hyd y nod fywyd Duw; ac felly, bod, yn ystyr gyfyngaf yr ymadrodd, yn Grist bychan yn ein byd bychan ein hunain."—*Chas. H. Parkhurst, D.D.* (Presbyteriad).

"Yn ol fy meddwl I, Cristion yw hwnw sydd yn derbyn Iesu Grist fel yr arweinydd moesol ac ysprydol goreu y mae y byd erioed wedi ei weled, ac yn ei yspryd Ef yn ymdrechu caru a gwasanaethu Duw a dyn."—*Chas. W. Eliot, Ll.D.*

"Bod yn Gristion yw byw mewn ymostyngiad cariadlawn ac ufuddddod gweithgar i ewyllys Duw, gan ymddiried yn nhrugaredd Iesu Grist."—*Borden P. Browne, Ll.D.*

"Bod yn Gristion yw byw i ereill."—*C. A. Bartol, D.D.*

"Adeiladu bywyd ei hunan ar y cynllun—Crist Iesu."—*D. H. More, D.D.*

"Bod yn Gristion yw derbyn Iesu Grist fel Iachawdwr ac Arglwydd; fel Iachawdwr, i gadw oddiwrth gosp a gallu pechod; fel Arglwydd, i lywodraethu dros y galon a'r bywyd. Cristion, gan hyny, yw un sydd yn credu yr Iesu, ac, o ganlyniad, yn ganlynwr iddo."—*Arthur P. Pierson, D.D.*

"Bod yn Gristion yw caru yr Arglwydd Iesu Grist gymmaint ag yr awyddaf ei gael i deyrnasu uchaf yn fy nghalon."—*Mrs. G. R. Alden.*

"Matt. vii. 12, 'Am hyny, pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy,' er mwyn Crist. Felly mae dyn yn arwain bywyd uniawn oddiar y cynhyrfiad goreu—cariad anhunangar tuag at ereill."—*Mrs. Sarah K. Bolton.*

"Bod yn Gristion yn mlaenaf oll yw credu, caru, ac ymddiried yn ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist croeshoeliedig, adgyfodedig,

ac esgynedig, dros ein hiachawdwriaeth dymhorol oddiwrth bechod, a'n dyogelwch tragwyddol oddiwrth ganlyniadau pechod. Fel ffrwyth y weithred hon "o ffydd gadwedigol," y mae yn canlyn y dylem gynnyddu yn ddyddiol i'w debygrwydd Ef ac agosrwydd ato Ef, gan edrych ato Ef am gynghor, cysur, a nerth. Os ydym yn ei garu ef, bydd i ni gadw ei orchymynion. Y mae ei yspryd ef yn addysgu dyheadau ac yn cytuno â gweithrediadau ei wir blant. Felly y mae yn ffrydio i arferiad y ffurf uchaf o ddynoliaeth. Fel y carodd Efe nyni rhaid i ninau garu ein gilydd."—*Marion Harland.*

"Bod yn ddysgybl i Grist ydyw, neu, fel y gesyd Dr. Thomas Arnold ef yn un o'i lythyrau, 'pwrpas y galon a'r meddwl yw ufuddhau a chael ei arwain gan Grist, ac, o ganlyniad, y mae yn Gristion.' Y mae hyn yn ddigon er mynediad neu ddyfodiad i'r bywyd Cristionogol, ac yn faen prawf hollddigonol o gymdeithas. Yr amcan olaf rhaid fod yw, *tebygrwydd i Grist.—Rob. C. Pitman, Ll.D.*

Ac yn olaf, medd Mrs. Mary A. Livermore, "Yn y blynyddau diweddaf yr wyf wedi dyfod i osod pwys mawr ar fywyd a chymmeriad, fel yn gwneyd i fyny y prawf goreu o fod dyn yn Gristion: 'Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.' Ac etto, ymddengys i mi fod crediniaeth yn y Crist hanesiol, wedi ei sylfaenu ar hanesion y Testament Newydd, a'u hegluro a'u cryfhau gan ymchwiliadau ysgolheigion Beiblaidd mwyaf ymddiriedol y dydd, yn hanfodol os bydd un yn Gristion deallus ac wedi ei gadarnhau yn dda yn olygiadol *(theoretically)*. Yn ail, at yr argyhoeddiad deallawl hwn, y mae yn rhaid ychwanegu ymdrech barhaus a gwrol i weithredu i fyny i'w feddylddrych uchaf, a byw bywyd o gariad at ddyn a Duw, yn ol addysgiadau Crist. Rhaid i'r bywyd gael ei lywodraethu gan amcan uchel.

> 'To think, to feel, to do, only the Holy Right,
> To yield no step in the awful race, no blow in the fearful fight.'

Ni all un dyn fod yn Gristion os nad yw yn amcanu byw tuag at ei gydgreaduriaid mewn cariad cynnorthwyol. Fel mai cyfraith bywyd Crist oedd gwasanaeth i'r byd, felly y dylai eiddo y sawl a alwant eu hunain ar ei enw fod: 'Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd."

C. W.

Megys nad yw goleuni ond yn unig i'r llygad sydd yn gweled, a chariad i'r galon serchiadol, felly, nid yw'r bywyd ysprydol ond yn unig i'r natur ysprydol.

Ai tebyg fod Duw yn gofyn unrhyw unffurfiaeth heblaw unffurfiaeth meddwl uniawn a chydwybod lân; hyny yw, unffurfiaeth mewn caracter, ac nid mewn credo?

Gwisg dramor, gwisg allanol, ydyw corff dyn, wedi ei gyssylltu ag ef mewn dull nas gwyr efe.

NODIADAU AR LYFR YR ACTAU.

(Parhad o'r rhifyn diweddaf.)

Heblaw fod yr ysgrifenydd yn symmud yn amlwg yn nghanol hanesiaeth gyfamserol, y mae, yn ychwanegol at hyn, wedi gadael i ni brawf arall hollol anfwriadol o amseriad ei lyfr. Yr ydys yn gwybod fod llawer iawn o athrawiaethau gau wedi ymlusgo i fewn i'r Eglwys Gristionogol cyn diwedd y ganrif gyntaf. Ni gawn yn y Testament Newydd enghreifftiau o'r gau ddysgawdwyr hyn yn mhersonau Hymenæus, Alexander, a Philetus, "y rhai a wnaethant longddrylliad am y ffydd" (1 Tim. i. 19, 20), "ac o ran y gwirionedd a gyfeiliornasant" (2 Tim. ii. 17, 18). Yn benaf yn mhlith y gau broffwydi hyn ni a gawn y Gnosticiaid, y rhai a ddysgent fod y Goruchaf yn cael ei gynnrychioli ar y ddaear gan yr Aeoniaid, ac mai Aeoniad oedd yr Iesu. Gwelir fod ysgrifenydd yr Actau yn hollol rydd oddiwrth y ddamcaniaeth hon. Sonia ef am wrthwynebiad yr Iuddewon i'r Efengyl, ac am ymosodiadau y dosparth hwnw o'r cenedloedd a dybient y gwnai lledaeniad yr Efengyl ymhyryd â'u helw bydol; ond nid oes ganddo air am Gnosticiaeth yn un o'i ffurfiau, er fod yr athrawiaeth hon yn cael ei dysgu yn helaeth cyn diwedd y ganrif gyntaf. Mae yn llawn mor anhawdd tybied y gallai yr ysgrifenydd gyfansoddi ei lyfr heb son am y cyfeiliornadau hyn, ag iddo allu arddangos Jerusalem mewn llawn fwyniant o'i rhwysg a'i mawredd, ac yntau yn gwybod ei bod er's amser, bellach, wedi ei dileu o fodolaeth. Yr unig gasgliad dyogel, gan hyny, yw na wyddai yr awdwr ddim am Gnosticiaeth nac am ddinystriad Jerusalem.

Etto, mae y ffaith nad oes yma unrhyw gyfeiriad at Epistolau Paul yn dwyn profion i'r Actau gael ei ysgrifenu cyn bod cylchrediad yr Epistolau yn wybyddus. Mae rhanau o'r olaf hefyd yn cadarnhau tystiolaeth y blaenaf. Cawn enghreifftiau o hyn yn y crybwylliad a wneir am y ddarpariaeth ar gyfer y gwragedd gweddwon (Actau vi. 1, a 1 Tim. v. 9).

Mae tystiolaeth yr Actau o barthed i droedigaeth Paul, ar ol bod unwaith yn erlidiwr y saint, yn cydfyned â'r hyn a ddywedir gan Paul ei hun yn 1 Tim. i. 13, "Yr hwn oeddwn o'r blaen yn gablwr," &c. Yn 2 Cor. xi. 32, rhydd yr apostol hanes ei ffoedigaeth o Damascus mewn iaith ag sydd yn cyduno â'r hyn a ddywed Luc yn Actau ix. 23—25. Yn gyffelyb, hefyd, cawn ef yn Gal. i. 18, yn crybwyll am ei ymweliad â Jerusalem yn gywir fel y dywedir gan Luc yn Actau ix. 28. Yn y xiii. a'r xiv. o'r Actau, cawn adroddiad helaeth a manwl o'r erlidigaethau a fuont ar Paul yn Lystra, Antioch, ac Iconium. Crybwylla yr apostol hefyd am y dygwyddiadau hyn fel rhai hollol hyspys i Timotheus, yr hwn oedd yn frodor o Lystra (2 Tim. iii. 10—11).

Drachefn, mae yr Actau a'r Epistolau yn dangos ddarfod i Paul weithio â'i ddwylaw er cynnal ei hun a'r rhai oeddynt gydag ef (gweler

Act. xviii. 3; 1 Cor. iv. 12; 2 Cor. xi. 8—10; 1 Thess. ii. 9; 2 Thess. iii. 8). A gwelwn yn mhellach, oddiwrth Rhuf. xvi. 4 a 2 Tim. iv. 19, fod cydweithwyr yr apostol yn gyfeillion mynwesol iddo. Yn Actau xix. 21, cawn fod Paul yn bwriadu ymweled â Jerusalem, ac yn y 13eg adnod o'r bennod gyntaf yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, mae yr apostol yn cadarnhau yr hyn a ddywed yr hanesydd, "Eithr ni fynwn i chwi fod heb wybod, frodyr, i mi yn fynych arfaethu anfon atoch." Dywedir yn Actau xxvii. 2, ddarfod i Aristarchus fyned gyda Phaul i Rufain. Cadarnheir hyn gan Paul ei hun yn ei Epistol at y Colossiaid (iv. 10), yr hwn a ysgrifenwyd yn ystod ei garchariad yn Rhufain —"Y mae Aristarchus, fy nghydgarcharor, yn dy anerch."

Mae y fath gyfatebiaeth mor annybynol o werth anmhrisiadwy, ac yn rhwym o arwain i'r casgliad fod yr Actau wedi ei ysgrifenu yn flaenorol i gylchrediad yr Epistolau. Gan hyny, wrth gymharu y naill â'r llall yn yr enghreifftiau a ddyfynwyd, yn nghyd â llawer ereill, a gweled y fath gyd-darawiad a chyssondeb yn rhedeg drwy yr oll, nis gellir llai na theimlo nad oes un amheuaeth ddarfod i'r Actau gael ei ysgrifenu tua'r un amser a llawer o'r Epistolau.

Mae hanesiaeth yr Actau yn ymestyn dros yspaid o dair blynedd ar ddeg ar hugain.

Oddiwrth Gal. i. 18; ii. 1, ac Act. ix. 26, gwelir fod tair blynedd o amser wedi pasio rhwng troedigaeth Paul a'i ymweliad cyntaf â Jerusalem. Cymmerodd ei ail ymweliad le ychydig cyn marwolaeth Herod Agrippa (Act. xi. 30, xii. 23). Yn mhen pedair blynedd ar ddeg wedi ei droedigaeth, tala Paul ei drydydd ymweliad â Jerusalem (Act. xv. 2).

Darllenir yn Actau xviii. 18—20 a xx. 6 am ddau ymweliad arall. Yn y cyfamser, yr oedd Paul wedi treulio bron tair blynedd yn Ephesus (Act. xx. 13), blwyddyn a hanner yn Corinth (Act. xviii. 2), tri mis yn nghwlad Groeg (Act. xx. 3), ac wedi teithio ddwy waith drwy ran fawr o Asia Leiaf, Macedonia, a gwlad Groeg. Ar ei bummed ymweliad â Jerusalem, cafodd ei garcharu am ddwy flynedd; ond ar ddychweliad Ffestus yn lle Ffelix, anfonwyd Paul i Rufain, lle yr arosodd ddwy flynedd gyfan yn ei dŷ ei hun, gan bregethu gyda phob hyfder yn ddiwahardd (Act. xxviii. 30, 31).

Trwy sylwi ar y ffeithiau a nodwyd, yn nghyd â chymhorth hanesiaeth gyfamserol, yr ydys yn gallu penderfynu amseriad yr Actau yn lled gywir. Yn ol Josephus, bu Herod Agrippa farw yn y flwyddyn 44 o Oed Crist, a chollodd Ffelix ei swydd o brwyaduriaeth yn y flwyddyn 60. Rhaid, gan hyny, ddarfod i'r apostol gyrhaedd Rhufain tua'r flwyddyn 61, gan i'r erlidigaeth dan deyrnasiad Nero ddechreu yn y flwyddyn 64, ac ar ol hyn, ni allasai bregethu gyda'r fath ddyogelwch ag y sonir am dano yn yr adnod olaf o'r Actau.

Gellir dangos crynodeb o'r sylwadau diweddaf yn y ffurf a ganlyn:—

1	Croeshoeliad Crist yn y flwyddyn	30
2	Marwolaeth Stephan	36
3	Troedigaeth Paul (Act. ix. a Gal. ii. 1)	37
4	Ymweliad cyntaf â Jerusalem (Act. ix. 26, a Gal. i. 18)...	40

5 Paul yn Tarsus 41
6 Paul yn Antioch, Act. xi. 26 43
7 Paul yn Jerusalem 44
8 Taith gyntaf Paul at y Cenedloedd, Act. xiii. 14... ... 45
9 Ymweliad â Jerus, xv. 2 50
10 Ail daith Paul trwy Asia a gwlad Groeg 51
11 Paul yn treulio blwyddyn a hanner yn Corinth, xviii. 2... 51
12 Ymweliad Paul â Jerusalem, Act. xviii. 22 54
13 Paul yn treulio bron tair blynedd yn Ephesus, Act. xix. 8—10; xx. 31 55
14 Paul yn aros dri mis yn ngwlad Groeg, ar ol gadael Ephesus, xx. 3 57
15 Paul yn treulio y Pasc yn Philippi, xx. 6, ac yn ymweled â Jerusalem, xxiv. 27 68
16 Paul yn cyrhaedd Rhufain, gan adael Syria yn y fl. 60... 61
17 Paul yn pregethu yn Rhufain, xxviii. 31... 63
18 Paul yn cael ei ferthyru, yn ol Eusebius a Jerome ... 68

J. R. T.

FFYDDLONDEB.

Pan fetho d'ymdrech, f'enaid gwan,
Ar ran y gwir a'r cyfiawn;
Pan ar bob da y bo rhyw bla
Yn llethu yni'r uniawn;
Drygioni'r byd ('rol ymladd cy'd
Yn erbyn ei deyrnasiad)
Yn ennill tir er gwaetha'r gwir,
A'r Nef yn cuddio 'i bwriad;
Pan fo'n byrhau dy einioes frau,
A'th obaith yn gwanychu,
Gelynol dwyll yn d'rysu'th bwyll,
A brodyr yn bradychu;

Wrth dy ffyddlondeb yn ddigryn
O glyn yn ddyfal, dyfal;
Nid gweithio'n llawn, ond gweithio'n iawn,
Yw'r hyn sy dan dy ofal;
Nid mewn un awr, ar ddaear lawr,
Mae ffrwythau'r Ne'n addfedu;
Dros oesoedd maith mae cyfnod gwaith
Rhagluniaeth yn ymledu.
O f'enaid, clyw! holl seintiau Duw
A ddysgant it' amynedd:
Trosglwyddo'r groes o oes i oes
Yw swm eu hanes rhyfedd.

Saf di gan hyny gyda'r lleng
Yn rhengau'r wir olyniaeth,
Ac ufuddha fel milwr da
Sy'n llariaidd dan ddysgyblaeth.
Mewn pryder dwys, mewn hyder glwys,
Mewn hedd neu mewn enbydrwydd,
Dos ar dy daith, cyflawna'th waith,
Gan gofio cyfraith d' Arglwydd;
Rho heibio'n rhwydd y blys am lwydd,
Ond chwilia am ddoethineb—
Am newydd wedd tu yma i'r bedd
Yn ernes anfarwoldeb.

D. R.

Y WIR UFFERN.

Mae y gair "uffern," yr hwn sydd wedi ei niweidio a'i gam arfer yn fawr, yn sefyll o hyd am sylwedd ofnadwy. Nid yw yr hen ddychrynfeydd duwinyddol ond cysgodion afluniaidd o ddychrynfeydd gwirioneddol. Mae yr uffern sydd wedi bod yn fwgan i genedlaethau lawer yn cyflym ddiflanu o gred fywiol dynion, ond nis gall yr uffern sydd yn ganlyniad naturiol ac anocheladwy nwydau drwg, buchedd ddrwg, cymmeriad drwg, byth beidio bod yn sylweddol a phwysig. Er gwaethaf llawer o ddadleuon dig yn nghylch cosp, nid yw yr Eglwys etto wedi dyfod i fyny i'r gwir syniad am ad-daliad. Mae uffern wedi ei gosod yn rhy bell i gael unrhyw ddylanwad ymarferol ar fywyd ac ymarweddiad. Dylanwad bach sydd gan bethau pell ac aneglur, bydded hwy dda neu ddrwg. Nid yw cosp sydd yn y dyfodol yn gyfangwbl yn un rhwystr i ddrwg-weithredu, ac nid yw y meddwl o adferiad dyfodol yn un cefnogaeth i rinwedd. Fe all eneidiau bydol ac hunanol wrando yn dawel ar y desgrifiadau a wneir o uffern draw yn mhell, gan obeithio y gallant hwy ddianc rhagddi trwy ryw oruchwyliaeth swyngyfareddol, fel pe gallesid troi o'r neilldu trwy weddi neu *fit* o dduwioldeb, ddeddfau moesol a chwrs mawr achos ac effaith. Mae yn beth dychrynllyd i'r cyfryw eneidiau esmwyth gael allan fod addaliad yn y presenol yn anocheladwy: nad yw y cospau Dwyfol yn allanol i'r enaid, ond canlyniad anhebgorol gweithredoedd drwg ac arferion drwg o weithredu: nad oes un ffordd i osgoi y drwg ydym wedi ei gyflawnu, ond rhaid i ni yma ac yn mhobman ddwyn ein baich ein hunain a medi o'r hyn ydym wedi ei hau. Ni chreodd Duw uffern: mae pob dyn yn creu ei uffern ei hun. Gweithreda Duw trwy drefn naturiol a deddfau pethau. Ni arfera Duw ei allu i felldithio ei blant. Dylai pobl ofni pechod, ac nid Duw. Gosododd Swedenborg y mater hwn yn dda pan y dywedodd fod y sawl sydd mewn pechod hefyd **yn nghospedigaeth pechod. Yn y byd hwn ac yn mhob byd y drwg**

oddifewn sydd yn attal y bendithiadau nefol. Mae bod yn isel, yn hunanol, yn ddrwg, a pheidio byw y bywyd uchaf, a ffurfio y cymmeriad uchaf, yn golygu tynghed o ymddyeithriad oddiwrth y profadau puraf a'r bendithion mwyaf Dwyfol. Nid yw yr hyn sydd yn ein hamgylchynu yn gwneyd uffern yn fwy nag y gwna nefoedd: cymmeriad sy'n gwneyd uffern a nefoedd. Fe wel y galon lawn drygioni gysgod o'i drygioni yn mhobman.

Where'er I turn is hell: myself am hell.

Ni wyddom ac nis gallwn wybod ond ychydig am y byd anweledig a fydd. Y byd a ddaw o hyd yw y dirgelwch na ellir ei ddirnad. Mae dystawrwydd Crist ar y pwnc hwn yn hynod. Yn ei addysgiadau ni cheir ond rhyw bump neu chwech o ymadroddion sydd yn cyfeirio yn blaen ac yn uniongyrchol at fywyd mewn byd arall, ac ni ddywed rhai'n fawr rhagor na bod y meirw yn byw, ac fod gofal Dwyfol drostynt. Mae yr hen athrawiaeth dduwinyddol am uffern wedi ei hadeiladu ar ffigyrau o ymadrodd. Gellir gwneyd adnodau i brofi pobpeth. Nid crefydd o adnodau yw Cristionogaeth, ond o egwyddorion. —J. H.

TU FAES I'R CAERAU.

"Wel, os ca efe fwleden ynddo 'fory, ni fydd yn ddrwg gan neb ond ei hunan, dyna ffaith," grwgnachai milwr, gan grychu ei aeliau ar ol Cadben Churchill, geiriau traws a ffyrdd gormesol yr hwn a'i gwnaent yn atgas gan bawb a ddelent yn agos ato.

Yr oedd y fyddin Brydeinig wyneb-yn-ngwyneb a'r gelyn, a boreu dranoeth byddai brwydr i gael ei hymladd, yr hon oedd i benderfynu tynghed yr ysgarmes. Y Gauaf blaenorol, darfu i'r Affghaniaid, yn cael eu cynnorthwyo gan rew na welwyd mo'i debyg er's blynyddau, yru y Saeson allan o Affghanistan, a gwneyd yn garcharorion nifer o swyddogion, yn nghyd a'u gwragedd a'u plant! Ac yn awr yr oedd y Saeson hwythau yn ymladd eu ffordd yn ol trwy y wlad er gwaredu y carcharorion, ac arweinid hwy gan Syr Robert Sale, amddiffyniad yr hwn o Jellalabad yn erbyn mintai ddengwaith cryfach na'i un ef, sydd o hyd yn un o'r tudalenau mwyaf dysglaer yn hanes rhyfeloedd Lloegr yn y Dwyrain.

"Efe i gael bwleden ynddo!" ebai dyn ieuanc tal, golygus, yr hwn oedd newydd oddef mewn dystawrwydd ystorm o geryddon annheg a sarhaus oddiwrth y Cadben annhrugarog: "'does dim fath lwc, Tom! Mae creaduriaid fel hyna yn dianc lle mae dynion gwell yn cael eu lladd. Ni th'rawa un Affghan ef byth, 'gei di wel'd!"

"Mae Jim Latham yn iawn," meddai hen filwr llawn creithiau, gan ysgwyd ei ben gwyn: "ond gall ereill saethu heblaw Affghaniaid, a gall bwleden daro o'r tu ol yn gystal ag o'r tu blaen."

"Dim o hyna, fechgyn," gwaeddai Jim Latham: "'dyw milwyr Lloegr ddim yn llofruddion, nad beth ydynt."

"Beth! a wyt ti yn siarad drosto, Jim?" llefai amryw leisiau. "Pa'm, mae wedi bod yn galetach arnat ti nag ar neb o honom."

"'Dwy I ddim yn siarad drosto ef," ebai Jim: "ond pe dygwyddai farw felly, byddai yn sarhad bythol i ni gyd. Pe gwelwn I ef mewn perygl o'i fywyd, ni fyddai achos iddo ofyn i mi i'w helpu."

Yr oedd y frwydr fawr wedi bod yn ymgynddeiriogi am dros ddwy awr, ac yr oedd yr holl ffyrnigrwydd yn awr yn ymgasglu o gylch gwarchae ddadfeiliedig ar ben bryn yn nghanol llinell y gelyn, yr hon a gymmerasid ac a feddiannid gan y Saeson. Dwywaith y daeth yr Affghaniaid yn fintai yn ei herbyn gydag oernadau ffyrnig, a dwywaith y gyrwyd hwy yn ol gan ddyrnaid o fechgyn glewion a ofalent am y mur oedd bron a syrthio.

Ond er eu gyru 'nol, ni chilient ond yn unig yn ddigon pell i gysgodi eu hunain y tu ol i goedydd a chreigiau, ac oddiyno y saethent gawodydd o fwledi ar y caerau, tra ar yr un pryd y gwnaent barotoadau ar gyfer yr ymosodiad olaf.

Er na wyddent hyny, yr oedd amddiffynwyr y warchae yn gwneyd gwasanaeth da i'w Cadfridog. Yr oedd yr Affghaniaid, wrth geisio eu llethu, wedi gwanhau yn raddol eu hochlr ddehau, ac ar hono y bwriadai Syr Robert Sale ymruthro gyda gallu anorchfygol. Hanner awr yn hwy, a byddai'r dydd wedi ei ennill i Loegr. Ond ni wyddai y gwyr gwarchaeedig ddim o hyn: gwyddent yn unig mai eu rhan oedd marw wrth eu gwaith, a bwriadent wneyd hyny.

Yn wir, ymddangosai nad oedd dim arall iddynt wneyd ond ymladd hyd nes y lleddid hwy i gyd. Yr oedd y gelyn yn ddeg i un iddynt hwy. Gorweddai hanner y fintai fechan yn farw, ac o'r gweddill nid oedd braidd un heb ei glwyfo. Elai eu hadnoddau yn brin, ac o'u pedwar swyddog un yn unig oedd yn fyw, sef Cadben Churchill.

Gyda'i holl drawsder a'i ormes, yr oedd y Cadben mor hyf a llew, ac ymddangosai ei fod yn mhobman ar yr un adeg, yn awr yn anelu ei ddryll at ryw swyddog Affghanaidd blaenllaw, bryd arall yn annog yn mlaen ei filwyr blinedig, mewn geiriau calonogol. Am y ddegfed waith ymgrymai dros y mur i wylied symmudiadau'r gelyn, pan y daeth fflachiad ac y clywyd ergyd o'r llwyni gerllaw, a syrthiodd y Cadben ar ei ben y tu faes i'r caerau.

"Wedi myn'd o'r diwedd," ebai milwr; "bu farw yn well nag y bu byw, canys p'un."

"'Dyw' e' ddim yn farw etto," ebai arall, gan dremio trwy yr adwy: "mi a'i gwelais yn symmud ei ben."

Y pryd hwnw edrychai y milwyr y naill ar y llall mewn mudandod, ac yn sydyn ymfflachiodd i gof Jim Latham, fel pe baent wedi eu hysgrifenu mewn tân, y geiriau chwerwon y darfu iddo lefaru ychydig cyn hyny—"Pe gwelwn I ef mewn perygl o'i fywyd, ni fyddai achos iddo ofyn i mi i'w helpu." Yr oedd y cyfle yn awr yn ei ddwylaw, oblegyd os na wnai bwledi yr Affghaniaid ei waredu o'i elyn, byddai gwres an-

nhrugarog yr haul yn ddigon i wneyd hyny, tra yr oedd unrhyw ymgais i'w achub yn sicr o fod yn farwolaeth: ond etto——

Am foment safodd y milwr ieuanc yn fud, gan gnoi ei wefusau nes y gwaedent. Yna, ar un naid neidiodd i ben y mur, disgynodd y tu faes, a chyda'i holl nerth, cododd gorff y Cadben a chariodd ef o fewn cyrhaedd rhyw hanner dwsin o freichiau preiffiion oeddent yn dysgwyl am dano ar ben y mur.

Ond cyn i'r gwaredydd gael amser i ddylyn daeth fflachiad ac ergyd arall o'r llwyni, a gwelwyd Jim, druan, yn syrthio, a rhuthrai yr Affghaniaid gyda llef wyllt o fuddugoliaeth greulon allan i'r ymosodiad olaf.

Ond uwchlaw swn y saethau a bloeddiadau'r ymosodedig, clywid swn mwy nerthol, yr hwn oedd yn dderbyniol iawn gan y Saeson oeddent bron cael eu trechu yn yr ornest. Llwyddodd y Cadfridog Sale o'r diwedd i gael ei fagnelau i gyfeiriad holl nerthoedd yr Affghaniaid, ac nid oedd tynghed y frwydr mwyach yn amheus.

Clywodd yr Affghaniaid y swn, a gwyddent yr ystyr yn rhy dda. Petrusent yn anmhenderfynol yn nghanol eu hymosodiad—yna, gwelent y rhengoedd yn gwamalu, ac mewn munyd arall torodd y fintai i fyny a chiliasant, ac ar yr un funyd rhuthrodd hanner dwsin o filwyr Lloegr allan o'r caerau, a llusgasant i fewn gorff Jim Latham, ag oedd i bob ymddangosiad yn hollol farw.

Fis yn ddiweddarach gwersyllai y fyddin Brydeinig ar yr ucheldiroedd o amgylch Cabul, prif dref Affghanistan, yr hon a gyrhaeddasent y nos flaenorol. O flaen y fyddin eisteddai Syr Robert Sale yn syth yn ei gyfrwy, ac oddiamgylch iddo ei swyddogion. Yn ei wynebu safai Cadben Churchill, yn welw ac yn wan o herwydd ei glwyfau, ac wrth ochr y Cadben, a'i fraich yn yr erwast, a chadach gylch ei dalcen, yr oedd Jim Latham.

Yn nghanol dystawrwydd dwfn, diolchwyd i Churchill am y rhan odidog a gymmerodd yn yr amddiffyniad, ac i Jim am ei wrhydri yn achub y Cadben yn nghanol tân y gelyn.

"Gyda chaniatad y Cadfridog," ebai Churchill, a'i wyneb gwelw yn gwrido dan gyffro'r foment, "caraf ddweyd gair neu ddau. Yr oedd gan y dyn hwn a arbedodd fy mywyd fwy o reswm dros ddymuno i mi farw. 'Rwyf wedi gwneyd ei fywyd yn faich iddo trwy driniaeth arw a gwarthrudd nad oedd yn deilyngu: a phe bai wedi gadael i mi farw fel ci, ni fuasai ond yr hyn oeddwn yn haeddu. Mae yn wir ddrwg genyf am fy ymddygiad, ac yma, yn eich gwydd chwi oll, yr wyf yn goiyn iddo faddeu i mi."

Estynodd ei law deneu i'r milwr ieuanc a gamdriniodd efe: a darfu i'r waedd a ymgododd pan y siglai y ddau ddyn gwrol ddwylaw fel brodyr ddychrynu yr Affghaniaid draw yn mhell yn nghanol cysgodion y mynyddoedd uchel.

"Dweyd da!" ebai yr hen Gadfridog yn galonog. "Mae pob un sydd yn ddigon o ddyn i addef ei fod ar gam yn llai tebyg o fyn'd ar gam drachefn. Yr wyf yn teimlo yn sicr y caf gyfle buan i fod dan rwymau diolch i chwi etto am eich gwroldeb ar faes y gad."

A'r tro hwn, fel ar bob tro arall, dywedodd Syr Robert Sale y gwir.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol y Nadolig, perthynol i Undodiaid Deheubarth Cymru (ac nid cyfarfodydd chwarterol y *gweinidogion*, fel y mae wedi ymddangos yn rhai o'r papyrau Seisnig), yn hen Gapel Gellionen, ar y 1af a'r 2il o Ionawr. Yr oeddys wedi trefnu i gynnal y cyfarfod nos Fercher yn Ysgoldy Craig Trebannws, ac erbyn amser dechreu, yr oedd y lle wedi ei lanw â thorf astud o bobl o bell ac agos. Aethpwyd trwy y rhanau defosiynol o'r gwasanaeth gan y Parch. Gynghorwr Thomas Thomas, a phregethwyd dwy bregeth ardderchog, y rhai a roddasant foddlonrwydd mawr, y naill gan y Parch. D. Evans, Cribin, a'r llall gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Dydd Iau, cariwyd y gwasanaeth yn mlaen drwy y dydd yn Nghapel Gellionen. Bu y bobl dda sy'n arferol o ymgyrchu i'r hen deml hon ar drum y mynydd yn edrych yn mlaen yn bryderus at y dydd hwn, ac ar rai prydiau fel yn edifarhau am bennodi y cyrddau yno ar adeg mor anniddig yn nyfnder Gauaf. Tybient y buasai'r hin yn anffafriol, ac y buasai'r bobl sydd wedi cynnefino gymmaint â'r cledrffyrdd, ac à'r esmwyth-feinciau yn eu parlyrau, yn methu dygymmod â dringo llwybrau gwyrgeimion ar ochrau ysgythrog y bryniau, ar ael y rhai y saif yr hen fangre gyssegredig hon. Ofnid hyn, ac fel canlyniad, ofnid y byddai y cynnulliad o weinidogion a lleygwyr yn deneu. Ond pan ymdorodd gwawr ar foreu Iau, yr oedd pob arwyddion am wlaw wedi ymgilio o'r wybren ; yr oedd pelydrau tanbaid teyrn y dydd yn goreuro'r bryniau â'u tesni, ac yn bedyddio'r wlad à'u tegwch. Er nad oedd llais y ddurtur i'w glywed yn y maesydd, fel yr ydym wedi ei glywed yma droion ar foreuau tesog yn Mehefin, ac er nad oedd brefiadau'r wyn yn lloni ysprydoedd ysig meibion a merched dynion, er hyny, yr oedd y defaid mor wâr ag erioed yn britho'r cribau cerrygog, ac yma a thraw canfyddem yr ehedydd yn ceisio cadw ei edyn mewn ymarferiad, ac yn telori rhyw nodyn neu ddau er mwyn cadw ei delyn mewn cywair i'n cyfoethogi ni etto yn y "dyddiau braf gerllaw." Ar y boreu prydferth hwn, canfyddem y ffyddloniaid yn cyniwair at eu gilydd, nes yr oedd cynnulleidfa fawr wedi ymgynnull yn y capel erbyn yr adeg oeddys wedi bennodi i ddechreu. Arweiniwyd yn y rhan ddefosiynol gan y Parch. J. Hathren Davies, a phregethodd y Parch. Henadur John Davies y bregeth, gan gymmeryd yn destyn y geiriau, "Os bydd dyn marw, a fydd efe byw drachefn?" Mewn iaith hyawdl oedd yn cario argyhoeddiad i bob calon oedd yn gwrando, darfu i'r pregethwr ddatgan ei ffydd ddofn fod bywyd yr enaid i oroesi y byd hwn a'i gyfnewidiadau, ac i barhau yn y byd y tu hwnt i'r bedd. Mae y gred mewn bywyd arall yn reddf yn y galon ddynol, wedi ei phlanu yno gan y Crewr da. Yr oedd astudrwydd yn weledig yn mhob gwynebpryd, a diamheu fod y bregeth odidog hon wedi rhoddi llawer o ysprydoliaeth a dyddanwch i'r sawl a'i clywsant. Ar ol Mr. Davies, pregethodd y Parch. T. Lloyd-Jones, o L'erpwl, ac yr oedd yntau yn ei hwyliau goreu. Yr oedd ciniaw wedi ei darparu i'r

gweinidogion, ac i lawer ereill yn y Gwernllwyn, ac yr oedd cyfluniaeth gyfoethog hefyd wedi ei harlwyo yn y capel ar gyfer pawb nad oeddynt yn ewyllysio myned yn mhell. Neillduid gwasanaeth y prydnawn yn fwyaf arbenig i'r gwaith o "urddo" y Parch. J. Fisher Jones i'r weinidogaeth yn Ngellionen. Carem ddweyd, gyda llaw, fod y Parch. J. Fisher Jones yn frawd i'r Parch. Lloyd-Jones. Dechreuwyd y cyfarfod hwn gan y Parch. J. Davies, ac yr oedd ei weddi yn ddwys ac effeithiol dros ben. Traddododd y Parch. R. J. Jones, M.A., y siars i'r gweinidog ieuanc, ac mewn anerchiad ymarferol a tharawiadol, rhoddodd lawer o gynghorion doeth ac o annogaeth wresog i'w gyfaill ar ei waith yn ymgymmeryd â'i orchwyl pwysig. Rhoddodd y Parch. Thomas Thomas y siars i'r gynnulleidfa, a nododd allan rai o'r dyledswyddau oeddent yn orphwysedig arnynt hwy fel eglwys tuag at eu gweinidog newydd. Siaradodd hefyd y Parch. W. A. Clarke, y gweinidog sydd newydd ei bennodi yn olynydd i'r Parch. J. E. Manning, M.A., yn Abertawe, a chafodd dderbyniad gwresog. Ar ol Mr. Clarke, cododd Mr. Lewys Hopcyn, Cythylyd, i roesawu Mr. Jones, ar ran y gynnulleidfa, a gwnaeth hyny yn y geiriau hyn :—

"Anwyl Gyfeillion,—Da genyf allu eich hyspysu fod yr eglwys hon wedi rhoddi gwahoddiad unfrydol i Mr. Jones ddyfod yma yn weinidog, ac iddo yntau ateb yn unol â'n cais; a heddyw, dyma yr uniad wedi cymmeryd lle, a gobeithio y bydd iddo barhau yn undeb yr yspryd a chwlwm tangnefedd. Yr wyf yn cofio i mi ddarllen am yr hen Barchedig Davis o Gastell Hywel, iddo unwaith gael cynnyg ar ryw £100 y flwyddyn am fyned yn weinidog i Lanedi, ond ei sêl dros achos y gwirionedd a'i tueddodd i ddewis yn hytrach adfyd gyda phobl Ceredigion na nofio yn llawnder Llanedi, a darfu i hyny ddwyn iddo barch nid bychan. A gobeithio mewn amser i ddyfod, os dygwydd i Mr. Jones gael cynnyg o'r fath, y bydd y gynnulleidfa ac yntau wedi ymserchu gymmaint yn eu gilydd, nes y bydd yn well ganddo ddyoddef adfyd gyda phobl Gellionen na nofio mewn llewndid yn rhyw fan arall.

"Er fod ein hen gapelau mewn rhyw annghysbell fan,
Fel yr hynafol gapel hwn, ar ben y mynydd ban;
Os nad oes cyfleusderau yn gorwedd wrth ein dor,
Dyrchafwyd llawer gweddi daer at orsedd wen yr Ior.
Yr uniad hwn barhao yn elfen fywiol, fad,
Rhwng Mr. Jones a'r eglwys hon, yn wyrddlas mewn parhad;
Nid swn fo ei wasanaeth, ond sylwedd bythol, cun,
Fel ffynnon dardd o groth y graig, a'i dyfroedd fel y gwin;
Fel iorwg am y goeden yn c'lymu'n g'lymau clyd,
Boed yntau'n plethu yn fwy tyn am achos Duw o hyd.
'Rwyf yn dymuno llwyddiant a mwyniant pena'r byd,
Sef cariad a brawdgarwch f'ont yn llenwi'r lle i gyd;
Yr eglwys a'r gweinidog gyd gerddont law-yn-llaw
Yn rhwymyn hoff tangnefedd pur nes glanio'r ochr draw."

Estynodd y Parch. J. Davies ddeheulaw cymdeithas i Mr. Jones ar ran y gweinidogion Cymreig, a sicrhaodd ef y byddai iddo dderbyn y cydymdeimlad mwyaf calonog oddiwrthynt bob amser. Atebodd Mr. Jones mewn modd deheuig, a dadganodd ei obaith y cai efe, trwy help Duw, a chydweithrediad ei bobl, y fraint o fod o ryw les yn eu plith. Dygwyd y gwasanaeth i ben trwy ganu emyn a gweddi. Aethpwyd trwy y rhan arweiniol o wasanaeth yr hwyr gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais, a phregethodd y Parchn. John Davies a Thomas Thomas. Yn mhlith y rhai oeddent yn bresenol yn rhai neu yr oll o'r cyfarfodydd, heblaw y sawl ag ydym wedi enwi'n barod, gwelsom y boneddigion canlynol:—Y Parch. Mr. Hopkins (B), y Parch. Mr. Lewis, Craig Cefn Parc, (B); Mr. Jenkin Thomas, myfyriwr, Caerfyrddin; a Mr. D. Eiddil Jones, arweinydd Cymmanfa Gerddorol Undodiaid rhanbarth Morganwg am y flwyddyn hon.

ANERCHIAD PRIODASOL

I Mr. John Hopkins a Miss Gwen Morgan, Craig Trebanos.

Boed bendith ar uniad John Hopkin a Gwen;
Dan faner wen cariad yr hwyliont i'r pen;
Dau dawel, 'run duedd, dau fwynaidd, di fai—
Yn siriol mewn llanw—yn siriol mewn trai.

Mae Gwen a'r wenynen 'run elfen, 'run iaith,
Yn myned dan ganu i wneuthur eu gwaith;
Un ddiwair, lon, dduwiol, llawn gwaddol yw Gwen:
Mae n fendith i'r ddaear dan fendith y nen.

Yn nhymhor ei i'enctid darbodus fu John:
'Roedd nyth ganddo'n barod ar ochr y fron;
'Nawr ato'n ymgeledd wir gymhwys daeth Gwen;
Doed arnynt fendithion, rif mân-wlith y nen.

Wel, mwyach cydgasglu, cydfagu, cydfyw,
Cyd-dynu, cydganu, cydfoli'r un Duw;
Cydorphwys 'rol treulio yr einioes i'r pen,
Cydgwrdd yn y Wynfa tu arall i'r llen.

Glais. J. Evans.

Yr ydys wedi sylwi er ys blynyddau fod cyssylltiad rhwng maint y dorth chwech a rhifedi'r priodasau. Os bydd maint y dorth yn cynnyddu, mae rhif y priodasau yn cynnyddu hefyd.

NODYNAU GWASGAROG.

Mr. Golygydd,—Wedi darllen Yr Ymofynydd diweddaf, teimlaf nad oes modd ymattal rhag ysgrifenu gair neu ddau. Blin genyf fod y cydymdeimlad â chwi i ddwyn y baich o gario Yr Ymofynydd yn mlaen cyn lleied. Y mae y gwaith yn fawr a'r gweithwyr yn anaml; a'r hyn sydd yn ofidus meddwl yw, mai y rhai allant ysgrifenu a gwneyd ein cyhoeddiad yn un dyddorol (er ei fod lawn cystal ag y gellir dysgwyl iddo fod pan ystyrir nad oes ond un neu ddau dan y baich) yw y bobl na wnant ddim. Gobeithiaf yr ymddyosgant yn y dyfodol o'u difaterwch.

Ond bydded hyspys i chwi, Mr. Gol., mai â Mr. John Jones yn benaf y mae a fynaf yn yr ychydig nodiadau sydd genyf i'w gwneyd. Yn yr ymddyddan fu rhwng Mr. Jones a minau nid yw yn gofus genyf ddarfod i mi ddefnyddio y term, "elfenau natur." Yr hyn ddywedais I oedd, a'r hyn ddywedaf yn awr yw, fod y greadigaeth yn ddangoseg o fodolaeth Duw. Mewn geiriau ereill, y gellir ymresymu bodolaeth Duw oddiwrth y greadigaeth. Mae yn wir nad yr un geiriau yn hollol ydynt y rhai hyn â'r rhai briodolir i mi gan Mr. Jones, ond nid ydynt yn gwneyd gwahaniaeth sylweddol yn ein sefyllfa. Fodd bynag am hyny, gadawer i ni weled lled y gagendor sydd rhwng Mr. Jones a minau. Er enghraifft, dywed efe, "Yr enaid yw y man iawn i ddyn chwilio am ei Dduw, ac nid y *cyclone* a'r *hurricane*." Yn awr, ai nid yw enaid dyn yn rhan o'r greadigaeth? Ac os felly, yn y greadigaeth, wedi'r cwbl, y ca Mr. Jones afael yn ei Dduw. Ond gan nad yn mha le y cafodd Mr. Jones ei Dduw, y mae wedi ei gael, ar ei addefiad ei hun, ac os ydyw fel Duw yr Undodiaid, Efe ydyw Creawdwr y bydysawd, ac felly y *cyclones* a'r *hurricanes*. Mae arnaf ofn nad yr un yw duw Mr. Jones â Duw yr Undodiaid, oblegyd dim ond yn enaid dyn y gwna ei ymddangosiad, tra y mae Duw yr Undodiaid yn hollol o fewn desgrifiad prydferth Ceiriog—"Beth yw'r greadigaeth ond Beibl arall Duw?" Ond os nad y Duw Hollalluog roddodd fodolaeth i'r deddfau hyny nad yw y *cyclones* a'r *hurricanes* ond amlygiad o honynt, pwy wnaeth hyny? Hwyrach mai Odin, y duw paganaidd! Yr hyn sydd yn *od* yw, fod Mr. Jones mewn un man yn ei ysgrif yn honi y gellir cael Duw yn enaid dyn, tra y mae mewn man arall ynddi yn gellweirus iawn yn gofyn, "A ydyw yn bossibl i fod meidrol ffurfio syniad am Fod Anfeidrol?" Beth wneir â chyfres o ryw wrthddywediadau fel hyn? Pa atebiad ellir ei roddi iddynt? Dywedir, Mr. Gol., mai wrth ei ffrwyth yr adnabyddir y pren, ond atolygwch, beth wneir pan nad oes genych na ffrwyth na phren? Atebed Mr. Jones, "oblegyd yr wyf fi yn ddall post ar y mater."

Mae gwaith Mr. Jones yn cyfeirio at y llong yn soddi, a'r dynion yn marw o newyn, yn dwyn llawer o debygrwydd i ymresymiad y dyn hwnw gynt amheuodd Hollalluogrwydd Duw am na allasai wneyd mynydd heb wneyd pant. Buaswn yn deall fy ngwrthwynebydd yn llawer iawn gwell ped ymgymmerasai ar unwaith â dweyd nad oes un

Duw. Yr oeddwn I bob amser yn arfer credu mai Undodwr oedd Mr. Jones, ond efe ydyw'r Undodwr cyntaf y gwn I ei fod yn amheu yn ymarferol ddilysrwydd yr athrawiaeth o gyfrifoldeb dyn. Y cynghor roddwn I iddo pe cawn fyddai darllen *Banau Ffydd Undodwr*, fel y dygo ei galon i ddoethineb, ac y caffo weled fod gan ddyn rywbeth i'w wneyd os ydyw am fyw.

Mewn perthynas i'r hyn ddywed Mr. Jones y buaswn I yn cymmeryd tudalenau Yr Ymofynydd i brofi bodolaeth Duw oddiwrth natur neu y greadigaeth, na fydded i'r darllenydd gredu fy mod I wedi dweyd, nac wedi meddwl ychwaith, y gellir gwneyd hyny fel y gellir â gosodiadau meintonol.

Llwynypia. John Morgan.

LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Mae gohebydd yn un o'r cofnodolion yn dywedyd, meddai y *Carnarvon Herald*, nad oes gan yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru ddim llyfr emynau y gellir ei alw hyd y nod yn *decent;* fod ganddi amryw gasgliadau, y goreu o ddigon, eiddo y diweddar Canon Evans, Bangor, yr hwn sydd yn dra phoblogaidd, ond yn syrthio yn fyr o'r hyn y dylai llyfr emynau eglwysig fod; nas gall y gohebydd ddywedyd un gair yn ffafr hwn; na ddylai y llyfr newydd fod yn hollol dan ormes y teimlad ansiriol, clafaidd, hunangar, a gafodd ei ddechreuad yn Mhantycelyn, ac na ddylai ychwaith gymmeryd arno yr yspryd mawreddog sydd mor nodweddiadol o Salmau *strait-laced* yr hen Iolo. Y llyfr y mae'r gohebydd hwn am gael yw un *free and easy*, yn yr hwn y gall y galon Gymreig gael digon o le i ymgodi, ymchwyddo, ac ymeangu mewn awyrgylch o fawl.—Dymunwn awgrymu eiddo Sankey & Moody i sylw y brawd fel un all fod o help. S.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL YN ABERDAR.

Yr Ymofynydd Anwyl,—Yr wyf wedi dy ddarllen yn hir gyda llawer o fudd ac adeiladaeth, er nad yn wastad gyda chydsyniad yn mhob peth. Yr wyf yn teimlo dyddordeb yn dy lwyddiant, ac yn yr achos mawr yr wyt yn bleidiol iddo; ond yr oedd rhyw wendid trist yn dy adroddiad o'r Cyfarfod Chwarterol yn Aberdar. O bossibl nad tydi sydd yn atebol am hyny. Ond waeth hyny na pheidio, trist oedd yr adroddiad, ac yr wyf yn ofni fy mod yn clywed ynddo swn cloch angladd ein cyfarfodydd chwarterol. Paham na fuasai rhagor o'n gweinidogion yn bresenol yn Aberdar? Pe dygwyddasai fod y Parch. T. Thomas yn absenol hefyd, beth fuasai y canlyniad? Siomedigaeth? Ie, hyny; ond gwarth hefyd a gwaradwydd i rywrai. Och fi! a ydyw wedi dyfod i hyn? Gobeithiaf—ïe, credaf, na fu cydfradwriaeth, ond yr oedd y canlyniad yr un. Mae yn bryd cymmeryd y mater

pwysig hwn i fyny yn ddifrifol, a cheisio trefnu rhyw fesurau i beru mwy o sicrwydd mewn cyssylltiad â'n mudiadau crefyddol. Dymunaf ofyn i'n cynnulleidfaoedd a ydyw yn rhesymol i ni ddysgwyl ein gweinidogion i wyddfodoli eu hunain yn ein cyfarfodydd chwarterol yn hollol ar eu traul eu hunain? Felly mae wedi bod hyd yma, ond y mae angen diwygiad, fel y gallom ni wybod pwy i'w ddysgwyl.

ABER DARIAD.

PREGETHU CRIST A CHRIST YN UNIG.

MR. GOLYGYDD,—Mewn rhifyn diweddar o'r YMOFYNYDD, mi welais fod y Parch. John Davies, Alltyplaca, yn dal mai Crist a Christ yn unig ddylai fod pwnc pregethu yr oes, ac yr oeddwn I yn hanner dysgwyl y gwnelai rhywun sylw o'r ymadrodd mewn rhifyn diweddarach; ond gan nas gwnaeth, yr wyf yn cymmeryd yr hyfdra i ofyn i Mr. Davies, neu i rywun arall, beth *all* fod ystyr y fath ymadrodd? Paham Crist *yn unig?* Yr wyf wedi clywed Mr. Davies yn pregethu amryw droion yn ystod y chwe' blynedd diweddaf, ac yn wastad gyda chymmeradwyaeth fawr; ond yr wyf yn methu gweled yn mha ystyr y mae efe ei hunan wedi cyfyngu ei bregethu at Grist yn unig. O leiaf, nid oeddwn I yn ei ddeall felly. Nid wyf erioed wedi ystyried fod Mr. Davies yn pregethu yn dywyll, ond y mae rhywbeth yn dywyll i mi yn y pwnc hwn, ac yr wyf yn gostyngedig ofyn am eglurhad.

J. J.

CWMGLO.

Bum yn siarad yn ddiweddar â chyfaill am y toriad allan yn Nghwmglo, a rhywbeth fel hyn oedd terfyn ein hymddyddan. Pan y darfu i'r gwahanol bleidiau yn Nghwmglo fethu cydweled ar bynciau eu ffydd, cymmerodd ymraniad le. Aeth y blaid Undodaidd, yn cael ei blaenori gan y bardd Sion Llewelyn, i'r Cefn, gan adeiladu yr Hen-Dŷ-Cwrdd yn 1747, digon tebyg, yn mhen cryn amser wedi iddynt adael eu hen gartref. Aeth plaid arall i Ferthyr, gan adael, fel mae'n naturiol casglu, rym y gynnulleidfa ar ol o hyd yn Nghwmglo. Yr oeddent yn gyffelyb i haid o wenyn mewn cwch. Yn yr Haf, gedy un haid y cwch, ond erys nifer mawr o'r gwenyn ar ol o hyd yn y cwch. Pa bryd y darfuwyd addoli yn Nghwmglo? Yn hanes Rhys Davies, neu Rhys y Glun Bren, ac hefyd yn hanes yr hen Williams o Droed-rhiwdalar, ni a gawn son am gynnulleidfa yn cyfarfod yn Long Room y *Crown*, Merthyr, a hyny yn nghylch y flwyddyn 1780. Yn awr, yr hyn a garem wybod gan rai o'ch gohebwyr yw, a oes rhyw gyssylltiad rhwng y rhai a adawyd ar ol yn Nghwmyglo a'r gynnulleidfa yn Long Room y *Crown?* Gobeithiwn y ceir eglurhad ar hyn yn YR YMOFYNYDD.

D. H.

FFYNNONAU DYDDANWCH.

Y mae un o'n gweinidogion hynaf a pharchusaf wedi nodi yr adnodau canlynol fel rhai tebyg o weinyddu dyddanwch a nerth mewn trallod a chyfyngder :—Exodus xxiii. 25 ; Deuteronomium xxxi. 8 ; Josuah i. 9 ; Salmau xxv. 16—18 ; xxvii , 1, 5, 7—9, 13, 14 ; xxviii. 7 ; xxx. 15 ; xxxiv. 18 ; xli. 3 ; xlii. 5 ; xlvi. 1, 2, 3 ; lv. 22 ; lxix. 29 ; lxxxvi. 3—7 ; xci. ; cxvi. 12—14 ; cxix. 75, 76 ; cxxx. 2—5 ; cxxxvii. 7 ; cxxxix. 23, 24 ; Diarebion iii. 12 ; Esaiah xii. 6 ; xxxv. 3, 4, 10 ; xliii. 1—3 ; Matthew ix. 18, 19, 23—26 ; Luc vii. 11—15 ; Ioan xi. 1—45 ; xii. 24—32 ; xiv. ; xvi. ; xvii. ; xviii. 1—11 ; Rhufeiniaid ii. 6—11 ; v. 3, 5, 8 ; viii. 18, 28 ; xiv. 7—9 ; 2 Corinthiaid i. 3—5 ; iv. 8, 18 ; Ephesiaid iii. 12—21 ; Colossiaid iii. 2 ; Hebreaid x. 56 ; xi. 13—16 ; xii. 5—11 ; 1 Petr i. 3 ; Datguddiad iii. 19 ; Salmau xxiii. ; xxxix. ; xlii. ; xlvi. ; lxi. ; xc. ; ciii. ; cxxx.

YR ARHOLIAD MEWN GWYBODAETH GREFYDDOL.

Cynnelir yn y Cwrtnewydd, Gwener y Groglith, 1890. Dymunwn alw sylw neillduol ein Hysgolion Sul yn Sir Aberteifi at yr uchod, gan daer obeithio y gwneir ymdrech egniol i barotoi cynnifer o ymgeiswyr ag a fyddo bossibl ar ei gyfer. A ganlyn yw y testynau :—Yr *Hen Destament*—Hanes Joseph. Y *Testament Newydd*—Yr Iesu a'i gyfeillion newydd, Ioan i. 35—37 ; y briodas yn Cana, Ioan ii. 1—11 ; yr Iesu ar Wyl y Pasc yn Jerusalem, Ioan ii. 12—25 ; yr Iesu a Nicodemus, Ioan iii. 1—21 ; y Wraig o Samaria, Ioan iii. 20—iv. 43 ; taith trwy Galilea, Matthew iv. 12—25 ; Yn Nazareth, Luc iv. 14—30 ; galwad y deuddeg, Matthew x. ; Marc iii. 13—21 ; Luc vi. 13—16 ; y bregeth ar y mynydd, Matthew v.—vii ; Luc vi. 17—49 ; yr Iesu a'r Sabboth, Matthew xii. 1—14 ; Marc ii. 23, iii. 5 ; Luc vi. 1—11. *Banau Ffydd*—Pennod. iii. a iv. Mae'r arholiad yn agored i bawb o bob oedran yn ddiwahaniaeth. Fel help i feistroli adran y Testament Newydd, gweler gofyniadau y Parch. T. Thomas yn y rhifyn diweddaf.

Y TISIANWST.

Dyna'r gair goreu wyf fi wedi ei weled am *influenza*. Mae yn well na gair Morien—fflamwydden. Y fflamwydden yw *erysipelas*. Dywed hen stori fod rhywun unwaith wedi cwrdd ag angel y colera fel yr oedd yn gadael Cairo, ac wedi ei gyhuddo o wneuthur difrod mawr. "Yr ydych yn camsynied yn ddirfawr," ebai'r angel. "Am bob un a leddais I, y mae ofn wedi lladd deg." Ac felly y mae yn awr. Priodolir pob anwyd cyffredin i'r *influenza*, a dychrynir dynion nes y maent ar unwaith bron colli eu gwynt. Byddwch yn dawel, blant

anwyl. Meddiennwch eich hunain mewn amynedd. Gochelwch bob gormodedd a phob rhysedd. Byddwch gymmedrol yn mhob peth. Dywedir mai yn 1741 y daeth yr enw *influenza* i fodolaeth, ac yn yr Eidal y cafodd ei eni; ond y mae'r clefyd ei hun yn llawer hynach na hyny. P. P.

ARFERION DILES.

Yn mhlith y llu o arferion diles sydd i'w cael yma a thraw, nid oes un â chymmaint o eisieu ei symmud ymaith a'r arferiad o bregethu mewn angladdau, ac yn enwedig felly pan y mae'r bregeth yn y tŷ, fel y mae yn gyffredin mewn rhai manau. Nid oes ond ychydig yn gallu gwrando, pe bai awydd arnynt i wneyd hyny, gan fod y tai yn fychain, ac y mae'r lleill yn treulio eu hamser goreu y gallont y tu allan, ac yn fynych bron a sythu, ac felly, yn gosod eu hunain yn agored i gael anwyd ac afiechyd. A ydyw ddim yn bossibl taflu'r arferiad o'r neilldu, gan nad yw yn gwneyd un lles i'r marw, nac i'r byw ychwaith?

Y PARCHEDIGION HOPPS A VOYSEY.

Dewiswyd Dr. Dods yn Brif Athraw Coleg Presbyteraidd yn Ysgotland trwy fwyafrif mawr; ond y mae'r *heresy-hunters* wedi codi yr hen waedd. O bob cŵn, y cyflymaf eu harogl, yn ddios ac yn ddibetai, ydynt y rhai a osodir i arogli heresi. Son am waedgwn meusydd caethwasiaeth, nid ydynt i'w henwi ar yr un anadl. Nid yw yr athrawiaethau poblogaidd, yn eu tyb hwy, yn ddyogel yn ngofal Dr. Dods. Y mae perygl iddo lygru y bobl ieuainc a dderbyniant addysg ganddo! Ni wnaiff y tro i ganiatau i Dr. Dods amheu yr Iawn Dirprwyol, y Poenau Tragwyddol, ac i son mwy na mwy am Gariad y Tad Goreu. Mae y *tide* mawr yn codi, *tide* rhagfarn a chulni crefyddol, ac ni fydd yn un syndod genym na wthir y dysgedig a'r hynaws Dr. Dods yn y man allan o'r sedd y gosodwyd ef ynddi mor anrhydeddus yn ddiweddar.

Pan ddarllenodd y Parch. Page Hopps hanes y pennodiad a'r adroddiad o'r araeth agoriadol, methodd beidio datgan ei lawenydd fod yr hen wahanfuriau yn ymollwng, a dangosedd ei barodrwydd i gyfrif Dr. Dods fel un o honom ni. Y mae hyny wedi suro ystumog y Parch. Charles Voysey yn afnatsen. Offeiriad Eglwys Loegr oedd Mr. Voysey unwaith, ac offeiriad Eglwys Loegr fuasai heddyw pe cawsai; ond fe'i trowyd ef allan oddiyno am ei fod yn dysgu athrawiaethau croes i'r rhai yr oedd yn cael ei dalu am eu dysgu. Ac yn awr y mae yn cael dysgu beth fyno yn ei eglwys ei hunan, a elwir y "Theistic Church," yn Llundain; ac y mae yn ddiamheu ei fod yn dysgu rhai

pethau rhyfedd iawn. *Theist* y geilw ei hunan, ac ar bwnc Undod diranedig Duw y mae yn gryf iawn. Nid ydym yn amheu ei allu, na'i ddawn, na'i ddysgeidiaeth, na'i gydwybodolrwydd; ond yr ydym yn mawr amheu ei ddoethineb a'i farn. Gellir tybied weithiau fod yr Hen Destament yn llawer uwch yn ei olwg na'r Newydd, ac fod yr Iesu wedi bod yn achos llawer mwy o ddrwg yn y byd nag o dda. Felly, dyma Mr. Voysey yn gwneuthur ymosodiad tanllyd ar Mr. Page Hopps, nes y mae yr *Inquirer* wedi bod yn ddiweddar yn faes dadl sydd yn ddiau wedi peru poen i galonau llawer yn ystod amryw wythnosau. Mae dull Mr. Voysey o ymresymu yn wreiddiol iawn. Nid yw efe yn credu mewn poenau tragwyddol; ond y mae'r Testament Newydd yn dysgu poenau tragwyddol o herwydd fod mwyafrif mawr yr eglwysi yn dywedyd hyny. Nid yw yn credu mewn Trindod, ond creda ei bod yn cael ei dysgu yn y Testament Newydd am fod yr eglwysi yn dywedyd hyny, &c.

Dywedodd Dr. Dods lawer o bethau parchus iawn am yr Iesu, a rhai pethau efallai na allwn ni, fel Undodiaid, ddim eu cymmeryd yn rhy lythyrenol; ac yr oedd Mr. Page Hopps efallai yn gweled yno fwy o agosrwydd mewn *sentiment* nag mewn athrawiaeth, ac o bossibl y teimlai fod yn rhaid i'r athrawiaeth yn y man ddylyn y *sentiment*. Ond wele, dyma Mr. Voysey i lawr arno gyda'i fil o briddfeini, gan chwilfriwio'n ganddryll y llythyren, ond heb gyffwrdd, dybiwn, â'r *sentiment*.

Onid ydyw yn rhyfedd mor wahanol yr edrycha dynion ar yr un pethau? Mae gan Mr. Voysey ei *hobby*, ac y mae yn gyru ei *hobby* i farwolaeth. Ofna fod perygl i anrhydedd y Goruchaf fyned dan gwmmwl, ac felly, rhaid bod yn gynnil sut yr ydym yn siarad am yr Iesu. Mae llawer o'i reswm dros hyny yn gorphwys yn y ffaith fod y dyn Iesu wedi ei ddyrchafu i fod yn wrthddrych mwy o barch yn yr eglwysi na'r Goruchaf Dduw ei Hun. Ond och fi! fe all Undodwr yn sicr wahaniaethu rhwng yr Iesu a'r Goruchaf heb berygl cymmysgu'r personau (ac am Undodiaid, y mae enaid Voysey mewn blinder yn y ddadl hon). Rhodder i bob un ei eiddo ei hun, wrth gwrs; eiddo Cæsar i Cæsar, a Duw i Dduw; i bob un yr anrhydedd dyledus iddo.

Mae gan Mr. Page Hopps yntau ei *hobby*. Creda yn gryf yn yr hyn a eilw yn *symphony of the creeds*, neu gydgordiad y credoau. Cara edrych yn fwy ar y manau y cytunant na'r manau y gwahaniaethant. Cara gredu fod anthem fawr dynoliaeth yn llaw y Pencerddor Tragwyddol yn cymmeryd i fewn y cordiau a'r discordiau, a hyny yn y fath fodd ag i ddwyn allan gerddoriaeth sydd y naill oes ar ol y llall yn dyfod o hyd yn fwy melus, yn fwy perseiniol, ac yn fwy nefolaidd.

S. N. S.

Dywed John Wesley nad yw opiniwn ddim yn grefydd—ddim hyd y nod opiniwn iawn. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt. Dichon dyn fod yn hollol iawn yn ei opiniynau, ac etto fod heb grefydd; ac o'r tu arall, dichon dyn fod yn grefyddol iawn er yn coleddu rhai opiniynau cyfeiliornus.

TREFN EGLWYSIG.

Y MAE ein darllenwyr yn cofio o bossibl am y Pwyllgor a appwyntiwyd yn y cyfarfod mawr (y *Triennial Conference*) a gynnaliwyd yn Leeds er's oddeutu dwy flynedd yn ol, i gymmeryd i ystyriaeth y pwnc o drefn eglwysig yn ein plith, mewn cyssylltiad a'r papyr a ddarllenwyd gan Dr. Martineau o flaen yr un cyfarfod. Mae'r Pwyllgor hwn newydd gyhoeddi ei adroddiad, a chyda'r gobaith y gwnaiff dynu sylw ein cynnulleidfaoedd yn Nghymru yn fwy at y pwnc y gosodir amlinelliad byr o hono ger eu bron.

Ymddengys fod y Pwyllgor wedi anfon papyrau i 411 o eglwysi ; derbyniwyd atebion oddiwrth 224, tra na chafwyd dim oddiwrth y lleill—187. O'r nifer hwn (sef y 187) yr oedd 32 yn yr Iwerddon, ac 155 yn Mhrydain, ac ymddengys fod nifer mawr o honynt yn eglwysi gweinion a chenadaethau (*missions*). O'r atebion a dderbyniwyd, yr oedd 32 yn gwrthod ystyried y pwnc yn un wedd, fel nad oedd mewn effaith ond 192 wedi ystyried y pwnc. O'r nifer hwn yr oedd 23 yn groes i gynllun Dr. Martineau, ac ni wnaethant gynnyg un gwelliant ; tra yr oedd y gweddill—169—oll yn sefyll yn gryf dros well trefn nag sydd yn ein plith yn bresenol.

Oddiwrth yr atebion mae yn amlwg nad yw cynllun Dr. Martineau yn dderbyniol, o herwydd o'r oll nid oes ond deg yn unig yn ffafriol iddo, ac yr oedd y lleill yn anffafriol mewn rhyw fodd neu gilydd. Y farn gyffredin am y rhan arianol oedd ei fod yn anymarferol, am y rheswm y buasai yn anmhossibl i yn agos i hanner ein heglwysi ddod i fyny a'r gofynion. Yr oedd yr oll bron yn condemnio'r cynnyg i newid yr enw, ac yn sefyll i fyny dros ryddid ar y pen hwn ; ac hefyd yn ystyried y cynnyg am yr angenrheidrwydd o fod pob gweinidog yn meddu *degree* fel peth anymarferol a diangenrhaid yn bresenol. Yr oedd y rhan fwyaf yn cymmeradwyo'r cynnyg am gynnadleddau (neu Undebau) talaethol, yr hyn (fel y nodir) fyddai yn sicr o fod yn foddion effeithiol i greu mwy o ddyddordeb yn yr eglwysi yn yr achos yn gyffredinol. Felly hefyd cymmeradwyir y Drysorfa Weinidogaethol, ac ymddengys fod y teimlad y dylai'r eglwysi cryf gynnorthwyo'r eglwysi gwan yn un lled gyffredin yn ein plith.

Ar ol cymmeryd yr oll o'r atebion i ystyriaeth fanol, mae'r Pwyllgor yn gwneyd yr awgrymiadau a ganlyn. Maent o'r farn y dylai Lloegr gael ei rhanu yn Undebau talaethol, tebyg i'r rhai sydd ar gael yn awr mewn rhai manau o honi. Mae'r Pwyllgor wedi tynu allan naw o'r Undebau hyn yn Lloegr ei hun, a nodant y gellid dosranu Cymru ac Ysgotland yn yr un modd. Awgrymir fod y gyfryw gynnadledd i gael ei gwneyd i fyny (*a*) o weinidogion y gwahanol gapeli perthynol i'r Undeb ; (*b*) dau gynnrychiolydd o bob cynnulleidfa ; (*c*) athrawon ein colegau ; (*d*) unrhyw un a wahoddid gan yr Undeb i fod yn aelod o honi ; ac yn mhellach, y dylai cyfarfodydd blynyddol pob Undeb gael eu cynnal ar amser pennodedig, a chyfarfodydd ereill ar unrhyw amser y byddai angen am danynt. Yn ei gyfarfodydd blynyddol bydd pob Undeb (*a*) yn appwyntio Llywydd, Trysorydd, Ysgrifenydd, yn nghyd

a phwyllgor o ddeg o aelodau i drafod ei faterion; (*b*) yn cymmeryd i ystyriaeth yr adroddiadau a anfonir i fewn o'r gwahanol gynnulleidfaoedd; (*c*) yn ystyried unrhyw gynllun i ledaenu'r achos, yn nghyd a phethau ereill. Hefyd, maent yn awgrymu y dylai Undeb Cyffredinol o'r holl gyfundeb gael ei ffurfio. Ac yn olaf, nodir allan y dymunoldeb o ffurfio Trysorfa Weinidogaethol gyffredinol, i gael ei rhanu gan yr Undeb Cyffredinol. Byddai'r Drysorfa hon yn cael ei gwneyd i fyny o'r arian a gesglir yn y gwahanol gynnulleidfaoedd, y rhai fyddant yn cael eu hanfon i fyny i'r Drysorfa Gyffredinol, ac yna yn cael eu rhanu gan Ymddiriedolwyr y gyfryw Drysorfa. Ystyrir na fydd un drefn yn gyflawn heb fod rhywbeth o'r natur hwn yn gyssylltiedig a hi.

Nid yw'r uchod yn ddim ond awgrymiadau. Ond y mae'r mater wedi cael ei gymmeryd i fyny gyda chymmaint o ddifrifoldeb trwy yr holl enwad yn Lloegr, ac wedi cael derbyniad mor ffafriol, fel y gallwn deimlo yn sicr na adewir i'r mudiad syrthio i'r llawr mwyach. Bydd yr adroddiad uchod yn cael ei gymmeryd i ystyriaeth mewn cyfarfod arbenig a gynnelir yn Nottingham yn nechreu Mawrth, i'r hwn y gwahoddir cynnrychiolwyr o bob capel a sefydliadau ereill perthynol i'r enwad. Pe ond am y rheswm fod y pwnc hwn eisoes wedi creu bywyd newydd yn ein plith yn unig, y mae'r hybarch Ddr. Martineau, yn nghyd ag aelodau'r Pwyllgor dan sylw, yn teilyngu ein diolchgarwch mwyaf diffuant. Ac nid oes genym ond dymuno iddynt lwyddiant i gario'r gwaith allan i derfyniad hapus.

Manion a Hanesion.

Yr unig *real* "gynllun cadw" yw cadw at yr iawn, nid *credu* yn iawn yn unig nac yn benaf, ond *byw* yn iawn. Mae yr iachawdwriaeth i'w hennill trwy waith. Cael ffydd, wrth gwrs, ond ffydd Crist yn hytrach na ffydd yn Nghrist; ffydd, hyder, ymddiried, fel eiddo Crist, yn y llaw sydd yn llywodraethu.

Pan yn gosod blodau yn ystafell y claf, gofaler mai blodau byw ydynt—nid rhai marw; blodau dysglaer o arogl iachus, ac nid rhai o arogl clafaidd. Symmuder yr oll o honynt o'r ystafell yn y nos.

Llwynrhydowen—Dydd Nadolig cynnaliodd ysgolion Bwlch-y Fadfa a'r Llwyn eu cyfarfod blynyddol yn hen gapel y Llwyn, pan yr oedd yr hen adeilad cyssegredig bron yn orlawn. Holodd y Parch W. J. Davies yr ysgolion, a theg yw dweyd fod y gwahanol atebion yn dda dros ben. Canodd cor y Llwyn, dan arweiniad Mr John Jones ddwy anthem, a dylynwyd hyn gan gor y Bwlch dan arweiniad Mr Thomas Thomas, Greengrove; ac wrth ddiweddu, canodd y Cor Undebol (arweinydd, y Parch W. J. Davies,) y corawd mawreddog, 'We never will bow down,' o *Judas Maccabæus*, yn dda iawn—y Misses Davies yn canu y ddeuawd. Yn y prydnawn cynnaliodd y Cor Undebol (yn cynnwys pedwar cor) Rehearsal gyffredinol yn nghapel y Graig, Llandyssul, wedi yr hyn yr awd i Assembly Rooms y Porth Hotel, lle y cafwyd gwledd o dê a bara brith a ddarparesid gan foneddigesau y Graig i ysgol y Graig a'r cor. Cafwyd yn yr hwyr gyfarfod ardderchog yn mhob ystyr; ni fu ei gyffelyb erioed yn Llandyssul. I ddechreu, canodd Cor Plant Llandyssul donau cenedlaethol Rwssia, Awstria, Twrci, Spain, Itali, Germani, Ffrainc, Alban, Iwerddon, Lloegr, a Chymru. Gwisgodd boneddigesau y Graig y plant yn ngwisgoedd y cenedloedd uchod. Dylynwyd hyn gan donau amrywiol, y

penaf o'r rhai oedd yr *action songs*; a chanodd y Cor Undebol 'We never will bow down'—Mrs Thomas, y Bwlch, a Miss Jones, Rhydysais, yn canu y ddeuawd. Yn ol barn rhai o brif gantorion Llandyssul, dyma'r canu goreu fu erioed yn y dref. Cawsom hefyd ddwy ddrama—y gyntaf yn dwyn y pennawd, 'Natur a'i Thymhorau,' darparedig gan Mrs. Jones, Gellifaharen. Y personau canlynol gymmerasant i fyny y gwahanol gymmeriadau:—Natur, Miss Rees, Cilgwyn Bach; Gwanwyn, Miss Jenny Jones, Gellifaharen; Haf, Miss Judith Hannah Evans; Hydref, Master David Jones, Gellifaharen; Gauaf, Master Thomas Jones, Gellifaharen; Lleisiau Natur, Cor Plant Llandyssul; cyfeilydd, Miss Kate Jones, Gelli. Yna cawsom y brif ddrama, 'Gwneyd Melldith,' a ddarparesid gan weinidog y Graig. Cymmerwyd y cymmeriadau fel hyn:—Henry, swyddog yn y fyddin, Mr Evans, cyfreithiwr; Oliver y pysgotwr, Mr D. Rees; Nicolas, Mr John Titus; Pentrefwr, Mr. Tom Evans; Cerddor, y Parch W. J. Davies; Manette, y brif olchwraig, Miss Rees, Cilgwyn; Therese, Miss Davies, Alma House; Jacquet, Louise, a Jane, Misses Elizabeth Rees, Grace Jones, a Jane Jones; cyfeilydd, Mrs James, Brynhyfryd; Prompter, Mr J. Tyssul Davies; cyfeilyddion y cyfan, Miss Davies, Alma House, a Mrs James, Brynhyfryd; arweinydd, y Parch W. J. Davies. Prif fai y cyfan oedd presenoldeb mwy o dorf nag a allasai yr ystafell gynnwys. O ddiffyg amser, ni roddwyd gwobrwyon i blant yr Ysgol Sul; gwnaethpwyd hyny y Sul canlynol, pan y cyflwynodd Miss May Thomas, Caerfyrddin, y llyfrau i'r plant. —*W.J.D.*

Llwynrhydowen.—Erbyn y Sul diweddaf gosodwyd y daflen i'r diweddar Barch. W. Thomas yn ei lle uwchben y pwlpud. Yn gerfiedig arni y mae yr hyn a ganlyn:—"Er cof am y Parch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles), gweinidog Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa, a Llandyssul, 1860—1879. Ganwyd Ebrill 7, 1834. Bu farw, Rhag. 11, 1879. Gwr cynhes ei deimladau, egniol ei natur, craffus ei sylw, cyflym ei feddwl, mawr ei gyrhaedd, cynnyddol ei wybodaeth, syml ei iaith, eglur ei barabl, a naturiol ei arddull, oedd ein Gwilym, ïe, gwr yn llawn o ddawn Duw yn ei bregethau, a'i galon ar dân dros ryddid a phob daioni dyn."

Cefncoed—Ychydig wythnosau yn ol, rhanwyd Trysorfa yr Ysgol Sul am y flwyddyn ddiweddaf, yr hon a gyrhaeddai y swm o yn agos i £38. Y swyddogion ydynt—Ysgrifenydd, Miss Maria Harries, a'r trysorydd, Miss E. A. Evans.

Gofidus oedd genym glywed na ddarfu i neb ofyn am y Cyrddau Chwarterol nesaf, yn Gellionen, wythnos y Nadolig. B'le mae'r bai yn gorwedd? Ai wrth ddrws y gweinidogion, neu ynte gyda'r cynnulleidfaoedd? A yw brwdfrydedd tanllyd yr hen Undodiaid wedi ein llwyr adael?

Gellionen—Cynnaliwyd gwyl flynyddol yr Ysgol Sul ar Ddydd Nadolig. Yn y prydnawn, cyfranogodd y plant ac ereill o dê a theisen, ac yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod rhagorol o adrodd a chanu, ac ymddangosai pawb wedi eu llwyr foddloni.

Y Wig—Rhoddodd cyfeillion y capel hwn wledd i ddeiliaid yr Ysgol Sul ar Ddydd Nadolig. Cyflwynwyd llawer o anrhegion i'r capel, a danfonodd un aelod, yn awr yn Cheltenham, fel arfer, arian er mwyn darparu llyfrau i'r Ysgol.

Capel y Bryn, Cwrt Newydd—Cynnaliwyd cyfarfod cystadleuol yn y lle uchod nos Nadolig, pryd y cafwyd prawf digonol o dalentau dysglaer sydd yn nodweddu pobl ieuainc yr ardal, yn gerddorol ac yn feddyliol. Llywyddwyd yn ddeheuig gan T. H. R. Hughes, Ysw., Neuaddfawr, ac arweiniwyd yn fedrus gan y Parch. E. Phillips (B.), Capel Seion. A ganlyn sydd restr o'r rhai llwyddiannus:—Unawd Soprano, 'Bwthyn bach melyn fy nhad,' Sarah Jones, Drefach; unawd i fechgyn dan 18 oed, James Thomas, Tyngrug; pedwar pennill i 'Galan Gauaf,' James Davies, Abercwm; traethawd ar 'A ydyw oes yr Ysgol Sabbothol wedi myned heibio?' D. Jones, Drefach; triawd, 'Fflora deg,' rhanwyd rhwng Llanybyther a Chapelygroes; englyn i'r 'Ffwlbert,' Benjamin Davies, Ffynnonsur, Llandyssul; hefyd, y ddau englyn i'r 'Fuwch;' unawd bass, 'Pinacl anrhydedd,' T. Arthur Thomas; unawd tenor, 'Neges y blodeuyn,' Mynyddog Jones, Ffynnonlefrith; araeth ar 'Lesiant y Bwrdd Sirol,' T. Arthur Thomas, D. Thomas, a T. Thomas yn gyfartal; deuawd tenor a bass, 'Y ddau lowr,' Mynyddog Jones a T. Arthur Thomas; Llythyr caru, merch at fab, Miss Jones, Coedlanau; Tôn Ddifyfyr, Jos. Evans, Llanybyther; Pennillion ar yr "Olygfa o ben Foel-y-bryn," T. H. Thomas, Llanybyther, a Evan Rees, Ty'n'fron, yn gyfartal; rhanwyd y wobr i'r parti o 12 am ddatganu y "Boreu" rhwng Court Farm Party a New Court Party; cydgan i leisiau gwrrywaidd

"Awn tua'r Cadfaes," New Court Party a Chapelygroes yn gyfartal; y prif ddarn corawl oedd, "Pebyll yr Arglwydd" Dr. Parry, ac ymgeisiodd dau gôr, sef cor Capelygroes dan arweiniad Dan Jenkins, Blaenwaun, a chôr y Critin dan arweiniad Dan Davies, Capel St. Silyn, a dyfarnwyd yr olaf yn oreu.

Y beirniaid oeddynt:—Cerddoriaeth, Mr. Geo. Davies, C.M., Crugybar; Barddoniaeth, Mr. T. Gwarnant Williams, Cwrt Newydd; Rhyddiaeth, y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, y rhai a gyflawnasant eu gwaith i foddlonrwydd pawb gobeithio, medd—*John Aelod Jones.*

Priodas.—Ionawr 13, yn Llwynrhydowen, gan y Parch. W. J. Davies, Mr. David Jones, Toryberllan, ag Eleanor Evans, Cefnborth. Byd gwyn fyddo iddynt.

Marwgofion.

Medi 11, 1889, yn 37 oed, Justina, priod Mr William Rees, Weinfawr, ger Tregaron. Ail ferch i Daniel Richards, Tymawr, Talsarn. Gadawodd i alaru eu colled ar ei hol briod a phedwar mab ac un ferch—yr hynaf yn wyth mlwydd oed a'r ieuengaf yn dair wythnos oed. Ar y 14eg daeth llawer o berthynasau a chyfeillion—llawer o honynt o Ddyffryn Aeron—i'w hebrwng i Gladdfa Tregaron.—*Cyfaill.*

Hydref 25, 1889, Sarah, priod Mr James Evans, Pantiorlech, yn 31 oed. Menyw weithgar iawn oedd Mrs Evans; gwnaeth hi ei goreu dros ei theulu lluosog. Yr oedd o gorff gwanaidd iawn, fel nad oedd yn alluog i fynychu oedfaon y Llwyn mor fynych ag y dymunai. Bu yn aelod yn y Llwyn hyd ei marwolaeth. Dydd Llun, Hydref 28, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi i Gladdfa Llwynrhydowen. Yn y capel darllenodd a gweddiodd Mr Davies, y gweinidog, ac yna pregethodd y Parch T. Thomas, Pantydefaid. Caffed ein brawd, James Evans, nerth i ddwyn ei blant bychain i fyny yn ofn Duw yw ein dymuniad.

Tachwedd 10, Mrs Eleanor Evans, Gelligron, ar ol cyrhaedd yr oedran teg o 81 mlwydd. Pan yn gymharol ieuanc collodd Mrs Evans ei chymhar, a gorfu iddi ymdrechu yn galed i ddwyn ei phlant i fyny, yr hyn a wnaeth mewn modd teilwng, fel y maent heddyw yn addurn i'r ardal y perthynant iddi. Yr oedd Mrs. Evans wedi ei donio â gallu meddyliol cryf, fel yr oedd hytrach yn rhagori ar ei chyfoedion mewn addysg. Bu yn aelod selog yn eglwys Llwynrhydowen yn ystod ei hoes, a theimlai frwdfrydedd mawr dros yr achos. Tachwedd 13, daeth tyrfa fawr i dalu y gymmwynas olaf iddi. Darllenwyd a gweddiwyd wrth y ty gan weinidog y Llwyn. Yna, hebryngwyd ei gweddillion marwol i Gladdfa Llandyssul, pan y gwasanaethodd ficer y plwyf. Traddododd Mr Davies, y Llwyn, bregeth angladdol yn y capel yn mhen tair wythnos i gynnulleidfa fawr. Am Mrs Evans gellir dweyd yn ngeiriau yr Ysgrythyr, "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Tachwedd 28, yn bump wythnos oed, Mary Thomas, Penybont, Llanwenog; a chladdwyd hi y Sadwrn canlynol yn mynwent Capelygroes, a gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Tachwedd 29, yn 65 mlwydd oed, Walter Jenkins, Aeron Villa. Teilwng yw o barchus goffhad am dano ar dudalenau Yr Ymofynydd. Bu am flynyddau yn un o flaenoriaid Rhydygwin—yn golofn ac yn addurn i'r gymdeithas. Undodwr oedd o ddewisiad, ac nid drwy etifeddiaeth; ond mewn cyssylltiadau ereill yr adnabyddid ef yn benaf yn mhell ac yn agos. Yn Nglanwern, fferm helaeth yn Nyffryn Aeron, y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, ac fel amaethwr deallus a medrus yr ennillodd enwogrwydd uwchlaw'r cyffredin. Pan yn ddyn ieuanc iawn fe ddaeth i'r amlwg fel *exhibitor* mewn arddangosiadau amaethyddol *(agricultural shows)*, ac yn ei flynyddau olaf gwelwyd ef yn fynych yn gweithredu fel barnwr mewn arddangosiadau o'r fath. Ei wybodaeth fanol, ei synwyr cryf, a'i onestrwydd tanbaid, a ennillodd iddo barch gan fawr a mân, ac o herwydd ei sirioldeb a'i hynawsedd, yr oedd ei bresenoldeb fel tywyniad haul. Yr oedd yn aelod o'r Bwrdd Ysgol yn Nyffryn Aeron o'r dechreuad yn 1874.

Dewiswyd ef yn drysorydd, ac wedi hyny yn gadeirydd i'r bwrdd. Cafodd angladd fawr iawn—y fwyaf a welwyd yn yr Ystrad er ys rhai blynyddau, a danfonwyd *wreaths* gan rai na allasent fod yn bresenol—Lady Pryse, Gogerddan; Mrs Lewis, Llanaeron; Mrs Baynton, Llanwyrau; Mrs Fowden, Llanbedr; Cadben Vaughan, Brynog; Major Lewes, Ty Glyn Aeron, ac ereill. Cof am ei ragoriaethau, ei rodiad hardd, a'i gymmeriad uchel, a fydd yn ddyddanwch parhaus i'w anwyl briod yn ei hunigrwydd. Gosodwyd ef yn mynwent yr Ystrad wrth fedd eu hunig fab, yr hwn a fu farw flynyddau yn ol yn mlodau ei ieuenctid.— *W.D.J.*

Rhagfyr 13, yn 88 mlwydd oed, Mary Thomas, Cwmdyllest Fach, gweddw y diweddar David Thomas o Bwllffine, cyn hyny o'r Griborfawr, Llandyssul. Y dydd Mawrth canlynol hebryngwyd hi i'w bedd yn mynwent Pantydefaid, at lu mawr o berthynasau a chyfeillion oeddynt wedi ei blaenu. Pregethodd y Parch T. T. yn y capel. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r ychydig foncyffiau sydd yn aros ar ol yn nghynnulleidfa Pantydefaid. Hen wraig ddyfyr, foddlon ei chyflwr, a diniwed iawn, oedd Mary, a gellir dweyd gyda llawer o briodoldeb am dani, "Mair a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddiarni." Gadawodd dri brawd, un chwaer, a thri o blant, mewn hiraeth ar ei hol.

Ddydd Nadolig, yn nhy ei chwaer, yn Rhymni, Evan Harries, yn 73 mlwydd oed. Brodor oedd o gymmydogaeth Capelygroes, ond yn Rhymni y bu yn trigiannu y rhan fwyaf o'i oes, a llettyai yn nhy ei chwaer Mrs Enoch, gweddw y diweddar Undodwr selog, David Enoch. Un tawel, dystaw, a diniwed, oedd ein brawd ymadawedig, a chyfaill didwyll a pharod i gymmwynas. Claddwyd ei weddillion yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, Cefn, y dydd Sadwrn canlynol, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

Ionawr 7, 1890, yn 12 mis oed, mab bychan David a Mary Evans, Blaenpant, ger Llanbedr, ar ol cystudd byr. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn Ngbladdfa Brondeifi, pryd y gwasanaethwyd (yn absenoldeb gweinidog y lle drwy afiechyd) gan D. Evans, Cribin. Na fydded iddynt alaru yn ormodol ar ol yr un bychan.

Ionawr 10, yn 42 oed, Thomas Nicholas, Penyrheolgerryg. Bu yn nychu am gryn yspaid oddiwrth yr *asthma*,ond dyoddefodd ei holl gystudd yn dawel a dirwgnach. Hanai ein brawd, o ochr ei fam, o deulu enwog mewn cyssylltiad ag Undodiaeth, a buont yn bileri cedyrn dan yr achos yn yr Hen Dy Cwrdd, Cefn—hen deulu y Jonesiaid, Merthyr, o'r hwn yr oedd y diweddar Cynonwyson yn aelod. Ymaelododd ein cyfaill yn yr Hen Dy Cwrdd ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, a hiraethai am gael bywyd i fod yn aelod defnyddiol, ond daeth y wys i'w ymofyn. Claddwyd y rhan farwol o hono y Mercher canlynol yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

Ionawr 14, 1890, David Llewelyn, Yswain, Park Hall, Treorci, wedi gorphen ei 82 mlwydd y Sul blaenorol, sef Ionawr 12. Gadawodd chwaer oedranus a dau fab a lluaws o berthynasau i alaru eu colled. Undodwr oedd o ran ei ddaliadau, ac arferai gynt fynychu y capel yn Mhenybont-ar-Ogwr. Derbyniai Yr Ymofynydd hyd y diwedd, a mwynhäai ef yn fawr. Dywedodd gweinidog y Methodistiaid wrthym eu bod hwy dan rwymau neillduol iddo am help mewn llawer modd yn nhymhor eu gwendid, pan gychwynwyd yr achos gyntaf yn yr ardal. Gwasanaethwyd dydd Sadwrn yn y ty gan R. J. Jones, Aberdar, ac yn Eglwys yr Ystrad gan yr offeiriad. Yr oedd y cynhebrwng yn lluosog.

Ionawr 19, Rees Prosser, o Goedycymmer, yn yr oedran teg o 80 mlwydd. Mawr oedd ei hyfrydwch i adrodd iddo gael ei eni yr un dydd o'r un mis ac o'r un flwyddyn â'r "Grand Old Man,"—Mr Gladstone; ac felly, yr oedd yn 80 oed y 29ain o Ragfyr diweddaf. Fel arwr enwog y Rhyddfrydwyr, mwynbaodd ein cyfaill iechyd rhagorol hyd i ryw ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, a dim ond am naw diwrnod y cafodd ei gaethiwo i'w wely. Yr oedd yn ddarllenwr eang a chraff, a meddai ar gof da i gofio yr hyn a ddarllenai, ac ar synwyr cryf i gyfleu ei ystôr o wybodaeth at adeiladaeth ereill. Yr oedd yn ddyn tawel, yn yr hwn yr oedd "trugaredd a gwirionedd wedi ymgyfarfod; cyfiawnder a heddwch wedi ymgusanu." Bu yn aelod ffyddlon am flynyddau yn Hen Dy Cwrdd y Cefn, a theimlir colled ar ei ol. Claddwyd ei weddillion y Mercher canlynol yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethodd y gweinidog. Duw fyddo yn darian i'w blant ar ei ol.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

AT Y CYHOEDD.

Erfynir arnom yn fynych i roddi hyspysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddyginiaethol a vneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai :—

GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS. Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hyspysrwydd yma. Digon yw dweyd fod "Dr Quain's Dictionary of Medicine"—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg erioed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddoluriau perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hyspys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sier eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT, neu "*American Marvel.*" Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y GWANEGON, LUMBAGO, SCIATICA, CYMALAU STIFF, CRAMP, STIFF JOINTS, CHWYDDIADAU, CLEISIAU, YSIGIADAU, DOLUR Y GWDDF, QUINSY, GWENDID YN YR AELODAU, INFLAMMATION, a holl boenau *ileol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.—Yr ydym yn gwarantu y gwna y Feddyginiaeth hon AWCHU Y CYLLA AT FWYD, CYNNORTHWYO TREULIAD BWYD, PURO Y GWAED, CRYFHAU'R GEWYNAU, SIRIOLI'R YSPRYDOEDD, ADDFEDU AC ARLLWYS POB HYLYF AFIACH A LLYSNAFEDDOG O'R CORFF.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S TIC MIXTURE.—Symmuda hwn y dolur a elwir TIC, (neu TICTOLORW) a'r RHEUMS mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.—Nid oes disieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Lozenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at GRYFHAU a PHEREIDDIO y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame EDITH WYNNE, Dr. PARRY, OWEN ALAW, EOS MORLAIS, LLEW LLWYFO, JAS. SAUVAGE, D. JENKINS, Mus. Bac., JNO. THOMAS, CARADOG, &c, &c.. *Pris* 6ch. a 1/-. *Gellir cael y Blwch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.—Meddyginiaeth effeithiol at wella "BRONCHITIS." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

"FLATULINE."—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud GWYNT o'r CYLLA a'r YMYSGAROEDD. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"ASTHMALINE."—Darpariaeth gwir werthfawr at DDIFFYG ANADL. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"DR. CRYNANT'S PLASTER." (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Clwyfau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Packets*, 7½c. *a* 1/1½ *yr un.* Yr un mwyaf drwy y Post am 1/3 mewn stamps.

PERCHENOG :—

J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

Hirwain.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. The fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.